

# Cynilo, Gwario, Cynilo Eto

## Paratoi

- Ystyriwch ffynonellau 'arian' eich plentyn, a allai gynnwys cost ambell i beth moethus yr ydych chi neu eich teulu'n talu amdano, y gellid ei ddefnyddio i gynilo.
- Meddyliwch am gysyniad eich plentyn o amser ac amcangyfrifwch pa gyfnod amser o gynilo fyddai'n rhesymol iddo ei ddeall – ar gyfer plant ifanc iawn, byddai'r amser hwn angen bod yn fyr iawn
- Casglwch luniau/eitemau sampl ac ystod o arian mân a/neu arian papur sydd eu hangen ar gyfer y gweithgaredd.

## Enghreifftiau

- Dangoswch rywbeth bach i'ch plentyn yr ydych yn ei brynu iddo'n rheolaidd, yna dangoswch rywbeth drutach yr hoffai ei gael gan ddatgan y pris uwch o lawer:
  - Ar gyfer plant hŷn gallech roi arian wrth ochr bob eitem; neu
  - Ar gyfer plant ifancach gallech ddefnyddio lluniau neu bacedi, er enghraifft, tri phaced gwag o fferins o'i gymharu ag un llun o degan
- Sgwrsiwch gyda'ch plentyn ynglŷn â hepgor yr eitem fach er mwyn iddo fedru cynilo ar gyfer yr eitem fwy – ond byddwch yn benodol iawn ynglŷn â graddfa'r hepgor ac am ba hyd.
- Unwaith y byddwch wedi cychwyn arni, gadewch i'ch plentyn weld ei gynnydd, er enghraifft:
  - Cadw mi gei gyda llun o'r eitem mae'n cynilo ar ei chyfer; neu
  - Siart ar y wal i'w alluogi i fonitro'r cynnydd
  - Rhowch nodau amser fel 'erbyn diwrnod parti Cai mi fyddi di hanner ffordd yno'.
- Pan fydd eich plentyn yn cyrraedd y nod, gwnewch yn siŵr fod yr achlysur o fynd allan i brynu'r eitem a gynilwyd amdani yn un arbennig – ond gwnewch hyn cyn gynted â phosibl er mwyn manteisio ar y cyffro

## Negeseuon

- Wrth wario arian yn syth wedi i ni ei gael ni allwn fforddio prynu nifer o bethau. Wrth gynilo mae'r pethau hyn o fewn cyrraedd
- Mae cynilo yn creu teimlad o lwyddiant, gan ychwanegu gwerth arbennig i'r eitem

## Gwthio pethau ymhellach

- Unwaith y bydd un nod cynilo wedi ei gyrraedd, anogwch eich plentyn i osod un arall

# Cynilo, Gwario, Cynilo Eto

## Paratoi

- Ystyriwch ffynonellau 'arian' eich plentyn, a allai gynnwys cost ambell i beth moethus yr ydych chi neu eich teulu'n talu amdano, y gellid ei ddefnyddio i gynilo.
- Meddyliwch am gysyniad eich plentyn o amser ac amcangyfrif pa gyfnod amser o gynilo fyddai'n rhesymol iddo ei ddeall.
- Meddyliwch am rywbeth y bu eich plentyn yn ysu amdano ond heb ei gael gan ei fod yn rhy ddrud, ac y gallai gynilo amdano.

## Enghreifftiau

- Rhowch gymorth i'ch plentyn benderfynu ar gyfer beth y bydd ef yn cynilo amdano a sut aiff ati i wneud hynny. Gwnewch yn siŵr ei fod yn deall pa bethau na fyddant ar gael (arian a/neu fferins) ac am ba hyd – cofiwch gall tri mis deimlo fel oes!
  - Cefnogwch eich plentyn drwy greu dulliau ymarferol o atgoffa:
  - Cadw mi gei gyda llun o'r eitem mae'n cynilo ar ei chyfer; neu
  - Siart ar y wal i'w alluogi i fonitro'r cynnydd
- Nodau amser – wedi cyrraedd hanner ffordd erbyn diwrnod chwaraeon, er enghraifft
- Os yw'ch plentyn yn ei chael hi'n anodd ceisiwch roi ysgogiad rhad ac am ddim neu seibiant penodol o'r cynilo – ond peidiwch â gadael i Nain brynu'r eitem yn ddi-lol.
- Pan fydd eich plentyn yn cyrraedd y nod, gwnewch yn siŵr fod yr achlysur o fynd allan i brynu'r eitem a gynilwyd amdani yn un arbennig

## Negeseuon

- Wrth wario arian yn syth wedi i ni ei gael ni allwn fforddio prynu nifer o bethau. Wrth gynilo mae'r pethau hyn o fewn cyrraedd
- Mae cynilo yn creu teimlad o lwyddiant, gan ychwanegu gwerth arbennig i'r eitem
- Wrth gynllunio ar gyfer rhywbeth mae'n haws cyrraedd ein nod

## Gwthio pethau ymhellach

- Unwaith y bydd un nod cynilo wedi ei gyrraedd, anogwch eich plentyn i osod un arall
- Yn raddol cynyddwch y nod a'r amser a gymerir i'w gyflawni, ond gwnewch yn siŵr ei fod yn parhau'n realistig
- Rhowch gymorth i'ch plentyn ganfod ffyrdd iddo fedru cynilo rhagor, efallai drwy gwblhau tasgau i ennill arian

# Cynilo, Gwario, Cynilo Eto

## Paratoi

- Efallai y bydd gan eich plentyn wahanol ffynonellau o incwm, ond gyda'i gilydd efallai na fyddant yn ddigon mewn un mis i dalu am eitemau drud mae'n gyfrifol am eu prynu.
- Efallai bydd eich plentyn awydd prynu eitemau 'moethus' fel dillad gan frand enwog neu offer electronig na allwch eu fforddio neu'n teimlo'n anghyfforddus eu prynu ar gyfer eich plentyn.
- Meddyliwch am ambell strategaeth a fyddai'n galluogi eich plentyn i gynilo am yr eitemau drud hyn.
- Gall cyfrifon cynilo fod o gymorth i'ch plentyn gyrraedd ei nod – ymchwiliwch i weld beth sydd ar gael ar gyfer eich plentyn chi

## Enghreifftiau

- Rhowch gymorth i'ch plentyn adnabod nod tymor byr a hirdymor, er enghraifft cymharwch gostau ar gyfer dilledyn neu declyn newydd fel ffôn deallus
- Rhowch gymorth i'ch plentyn benderfynu pa mor bwysig yw pob un eitem iddo, a chreu cynllun yn cynnwys y cyfansymiau a chyfnod o amser realisitig ar gyfer cynilo ar gyfer pob un – ond gwnewch yn siŵr nad yw'r cyfanswm i'w gynilo bob mis yn golygu nad oes gan eich plentyn arian ar ôl i fedru mwynhau
- Rhowch gymorth i'ch plentyn benderfynu sut y bydd yn mynd ati i gynilo, yn enwedig sut i gadw ar y trywydd cywir, drwy gyfrif cynilo er enghraifft
- Anogwch eich plentyn yn ystod y dasg a phan gyrhaeddir y nodau – gwerthfawrogwch ei ymroddiad hyd yn oed os nad ydych wedi eich plesio'n ormodol gyda'r pryniant sydd ganddo dan sylw.

## Negeseuon

- Wrth wario arian yn syth wedi i ni ei gael ni allwn fforddio prynu nifer o bethau. Wrth gynilo mae'r pethau hyn o fewn cyrraedd
- Mae cynilo yn creu teimlad o lwyddiant, gan ychwanegu gwerth arbennig i'r eitem
- Wrth i ni fynd yn hŷn a'r pethau a brynwn fynd yn ddrutach, rhaid i ni gynilo ar gyfer pethau beunyddiol ac argyfyngau, nid pethau moethus yn unig.

## Gwthio pethau ymhellach

- Unwaith y bydd un nod cynilo wedi ei gyrraedd, anogwch eich plentyn i osod un arall
- Rhowch gymorth i'ch plentyn ganfod ffyrdd iddo fedru cynilo rhagor, efallai drwy gwblhau tasgau i ennill rhagor o arian
- Trafodwch y dyfodol a chynilo hirdymor, er enghraifft cynilo ar gyfer y cyfnod ar ôl gadael ysgol